**Cofnodion cyfarfod o Gyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru a gynhaliwyd am 10.00am yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth, ddydd Iau 5 Mai 2018**

**Yn Bresennol:** Kevin Roberts (Cadeirydd)
Gareth Wynn Davies, Huw Davies, John Davies, Helen Howells, Barrie Jones, Rachael Madeley Davies, Catherine Smith, Claire Williams ac Ogwen Williams

**Trwy Wahoddiad:** Gary Haggaty (Llywodraeth Cymru)
Kayleigh John (Llywodraeth Cymru)
Helen Minnice-Smith (Llywodraeth Cymru)
David Morris (Llywodraeth Cymru)
Gareth Wilson (Llywodraeth Cymru)
Alison Wright (Calland Wright Consulting Cyf.)

**Y Weithrediaeth:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
**Yno hefyd:** Emily Davies (Eitem 6f)
Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Kirsten Hughes, Swyddog Gweithredol Cig Coch (Eitemau 6c a 9)

**Tîm Rheoli:** Rhys Llywelyn (Rheolwr Datblygu'r Farchnad)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)
John Richards (Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant)
Owen Roberts (Rheolwr Cyfathrebu)

*I gael cyflwyniad i'r Rhaglen Gwerthoedd Brandiau Cynaliadwy ar gyfer Bwyd o Gymru a Diod o Gymru – David Morris a Helen Minnice-Smith, Llywodraeth Cymru*

Rhoddwyd cyflwyniad ar lafar ar yr uchod,

Roedd HCC, ynghyd â chyrff eraill o'r diwydiant, yn gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru ar y fenter hon er mwyn datblygu gwerthoedd cynaladwyedd i "Brand Cymru" lle byddai cynhyrchu Bwyd a Diod yng Nghymru yn cael ei gydnabod drwy ddefnyddio cymwysterau amgylcheddol a lles. Byddai'r cynllun Gwerthoedd Brandiau Cynaliadwy yn adeiladu ar gynlluniau arferion da sy'n bodoli eisoes. Roedd gwaith yn mynd rhagddo ar y cymal datblygu gan ystyried sut gallai cynhyrchwyr a phroseswyr fod yn rhan o weledigaeth hirdymor o feithrin manteision cystadleuol i gynhyrchion o Gymru am eu bod yn iachus a dilys.

Y camau nesaf fyddai ymgysylltu â'r diwydiant a chael ei gydsyniad. Dylai hyn fod yn bosibl oherwydd o dan y cynllun ni fyddai brandiau'n cael eu disodli ond yn gorfod ateb gofynion ychwanegol.

Byddai HCC yn ystyried sut y gellid cynnwys y Gwerthoedd Brandiau Cynaliadwy oddi mewn i fframwaith Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru.

O safbwynt Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru, gallai dimensiwn arall i'r neges am darddiad hysbys fod yn bositif o ran datblygu brand..

Câi'r Bwrdd y diweddaraf drwy'r amser am y datblygiadau.

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu oddi ar y cyfarfod blaenorol o'r Bwrdd:-

1 Mehefin 2018 HCC, Aberystwyth – Cyfarfu'r Cadeirydd â'r Prif Weithredwr i gael y diweddaraf ynghylch busnes HCC a'r paratoadau ar gyfer gwerthuso'r Bwrdd.

4 Mehefin 2018 – Cyfarfu'r Cadeirydd â David Peace, Cadeirydd Hallmark Veterinary and Compliance Services. Roedd trafodaeth wedi digwydd ynghylch y posibilrwydd o Hallmark yn prynu Gwasanaethau Masnachol MLC (MLCSL), sef is-gwmni masnachol y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) sydd yn cynnig gwasanaethau dosbarthiad carcasau i ladd-dai yn y DG.

6 Mehefin 2018 - Roedd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn bresennol yng nghynhadledd flynyddol Cymdeithas Cig a Phroseswyr Prydain (BMPA).

7 Mehefin 2018 – Telegynhadledd i ddiweddaru'r Bwrdd cyn i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr fynychu cyfarfod bord gron Rhanddeiliaid Ymadael â'r UE wedi ei drefnu gan Lywodraeth Cymru.

26 Mehefin 2018 – Bu'r Cadeirydd yn gwerthuso'r Bwrdd cyn mynychu cinio Cymdeithas Milfeddygon Prydain (BVA).

Agorodd y Cadeirydd drafodaeth ar bolisi tir / amaethyddiaeth ôl-Brexit.

Nodwyd y cai ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar "Brexit a'n tir: diogelu dyfodol ffermio yng Nghymru" ei lansio yn ystod mis Gorffennaf 2018.
Byddai gan y Bwrdd gyfle i ystyried ymateb HCC i hyn yn ystod cyfarfod y Bwrdd ar 13 Medi 2018.

Hefyd, byddai'r thema o gyfuno'r amgylchedd a chynhyrchu bwyd mewn ffordd bositif yn cael ei chynnwys yn araith y Cadeirydd ar gyfer Sioe Frenhinol Cymru.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Illtud Dunsford

3. **Datganiadau o Fuddiannau**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

4. **I dderbyn a chymeradwyo cofnodion o gyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 3 Mai 2018 (HCC 821)**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 3 Mai 2018 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **Materion yn codi**

*Y Pwyllgor Gwaith ar Iechyd A Lles Diadelloedd a Buchesi*

Roedd trefniadau'n cael eu gwneud i gael cynrychiolaeth o blith y proseswyr ar y Pwyllgor, a rhoddid cadarnhad o hyn i'r Bwrdd maes o law.

*Staffio*

Nodwyd bod recriwtio' ar gyfer swydd Arweinydd / Rheolwr Cyflawni Rhaglenni.

6. **Adroddiadau HCC**

*a. Adroddiad Gweithgareddau (HCC 822)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

*Datblygu'r Farchnad*

Roedd y gwaith o geisio mynediad i Siapan yn cyflymu ac roedd disgwyl i ddirprwyaeth archwilio systemau ymweld â Chymru yn yr wythnos yn dechrau 9 Gorffennaf 2018.

Partneriaeth Ardystiad Allforio y DG (UKECP) – Nodwyd bod HCC mewn cyd-drafodaethau â'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) a Quality Meat Scotland (QMS) ynghylch cael cyllid i gyrchu marchnadoedd a chymorth ariannol o bosibl i UKECP. Yn ddiweddar roedd Defra wedi cynyddu ei ddarpariaeth gyllidebol i UKECP.

*Datblygu'r Diwydiant*

Roedd yr adran Datblygu'r Diwydiant wedi cymryd rhan mewn cyfres o gyfarfodydd Cyswllt Ffermio ar besgi ŵyn a gwartheg cig eidion, gan roi gwybodaeth am amodau a gofynion y farchnad.

*<u>Hollti Carcasau – Newid yn y Rheoliadau</u>*

Roedd trafodaethau'n parhau ynghylch pennu dyddiad dod i ben. Y dyddiadau dan ystyriaeth oedd 31 Mai neu 30 Mehefin.

*<u>Adolygiad o Ystodau Pwysau Ŵyn Dyfynbris Ansawdd Safonol (SQQ)</u>*

Roedd yr Adolygiad yn parhau, heb gytundeb cyffredinol ynghylch newid.

*<u>Ysgoloriaeth HCC</u>*

Cynhelid y cyfweliadau i ddewis Ysgolorion HCC am 2018 / 2019 yn ystod yr wythnos yn dechrau 9 Gorffennaf 2018, a chyhoeddid enwau'r ymgeiswyr llwyddiannus mewn digwyddiad ar stondin HCC yn Sioe Frenhinol Cymru.

*<u>Cyfathrebu</u>*

Nodwyd bod Defra wedi llunio Offeryn Statudol o dan y Bil Ymadael ynglŷn ag Enwau Bwyd Gwarchodedig (PFN) a'i fod yn ymgynghori â Llywodraeth Cymru ynghylch "Cyfundrefn PFN i'r DG". Roedd yn ymddangos taw'r cynnig presennol oedd:

- Trosglwyddo rheoliadau ar 29 Mawrth 2019
- Wedyn – Gweinidogion y DG i ystyried datblygu System newydd i'r DG.

*<u>Gwefan Gorfforaethol HCC</u>*

Roedd y gwaith ailwampio mewn perthynas â'r uchod wedi ei gwblhau ac roedd y wefan bellach ar waith. Roedd yn ymddangos fod y newid o'r hen i'r newydd yn gweithio'n foddhaol.

*<u>Bwletin HCC – Haf 2018</u>*

Cyflwynwyd copïau o'r uchod er gwybodaeth a byddent ar gael ar y Stondin Corfforaethol yn Sioe Frenhinol Cymru. Hefyd, câi copïau eu dosbarthu i randdeiliaid a gwleidyddion.

*b. <u>Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 823)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Nodwyd bod prisiau ŵyn yn dal i fod yn gryf ond gallai'r sychder / tywydd poeth ddod yn broblem fawr a chael effaith ddifrifol ar fusnesau fferm. Roedd ansicrwydd ynghylch Brexit a'r tywydd yn dal i greu problemau sylweddol.

c. *<u>I gael papur ar Adolygiad Diwedd Blwyddyn o Gynllun Gweithredol HCC 2017 / 2018 (HCC 824)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen ac wedi'i gyflwyno gan y Swyddog Cig Coch.

d. *<u>Digwyddiadau i ddod (HCC 825)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Nodwyd y byddai HCC yn cymryd rhan yn Wythnos Caru Cig Oen yn ystod 1 – 7 Medi 2018 a'i fod hefyd wedi cytuno i gefnogi Partneriaeth Brand Aga.

e. *<u>I gael manylion am bresenoldeb HCC yn Sioe Frenhinol Cymru 23 – 26 Gorffennaf 2018</u>*

Cyflwynwyd manylion am weithgareddau HCC yn ystod Sioe Frenhinol Cymru gan y Rheolwr Cyfathrebu. Câi gwybodaeth bellach a chamau i'w cymryd ynghylch y problemau cyfredol i'r diwydiant eu rhannu â'r Bwrdd yn yr wythnos cyn y Sioe.

f. *<u>I gael cyflwyniad am Strategaeth Fanwerth HCC</u>*

Cafwyd cyflwyniad gan y Swyddog Datblygu'r Farchnad Fanwerth yn y DG ynghylch Strategaeth Fanwerth HCC ar gyfer 2018 / 2019.

Ymgysylltwyd â phroseswyr a mân-werthwyr allweddol gyda golwg ar ddatblygu strategaethau at ofynion unigol ar gyfer pob cyfrif allweddol yn ystod 2018 / 2019. Roedd y gwaith hwn yn mynd yn ei flaen a gwnaed trefniadau am daith fanwerth mewn trelar, defnyddiau mannau-gwerthu, gwella rhestrau catalog, hysbysebion mewn cylchgronau a gweithgareddau ar-lein

## 7. <u>Pwyllgorau HCC</u>

### <u>Pwyllgor Ymgynghorol ar Ymchwil a Datblygu a Chyfnewid Gwybodaeth (R&D&KE)</u>

a. *<u>I dderbyn adroddiad llafar am y Pwyllgor R&D&KE a gynhaliwyd ddydd Mercher 13 Mehefin 2018</u>*

Adroddodd Cadeirydd y Pwyllgor i'r Bwrdd fel a ganlyn:-

- Cafodd y pedwar Aelod newydd o'r Pwyllgor, sef Tim Rowe, Mariecia Fraser, Julie Finch a Gavin Watkins eu croesawu i'r cyfarfod.

- Ni chafodd unrhyw geisiadau newydd am brosiectau eu cyflwyno i'w hystyried.

- Rhoddodd Non Gwenllian Williams, myfyrwraig ail flwyddyn PhD KESS ym Mhrifysgol Bangor gyflwyniad ar "Y rheolaeth orau o faetholion ar dir uchel".

- Cyllid Mamwladoli Ardoll Wedi'i Glustnodi ar gyfer Ymchwil a Datblygu – rhyddhawyd manylion y galw cyntaf am brosiectau, sef 'Asesu effeithlonrwydd mentrau bridio' a 'Gwella goroesedd ŵyn a lloi newydd-anedig'. Cafwyd cynigion ac roedd y rhain yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

- Bu HCC yn gyfrifol am gyfres o seminarau yn Nigwyddiad Tir Glas y Sioe Frenhinol a oedd yn ymwneud â phrosiectau tir glas ar y portffolio. Roedd Dr Christina Marley, IBERS yn cynrychioli prosiect SUREROOT ac roedd Chris Duller yn dadlau dros ddefnyddio'r Rhestr o Laswellt a Meillion Cymeradwy.

b. *<u>I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Y&D a Chyfnewid Gwybodaeth a gynhaliwyd ddydd Mercher 7 Mawrth 2018 (HCC 826)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

**<u>Y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu</u>**

*<u>I gael adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu a gynhaliwyd ddydd Llun 18 Mehefin 2018</u>*

Adroddodd Cadeirydd y Pwyllgor i'r Bwrdd fel a ganlyn:-

- Bu'r Pwyllgor yn trafod presenoldeb HCC yn Sioe Frenhinol Cymru. Trafodwyd themâu a gweithgareddau ar gyfer y Sioe

- Yn ogystal, bu'r Pwyllgor yn trafod strategaeth a dewisiadau Nawdd Corfforaethol HCC i sefydlu meincnod am 2018 / 2019 ar gyfer gwybodaeth rhanddeiliaid o'r diwydiant a'r rhan sydd gan HCC i'w chwarae

- Rhoddwyd diweddariad ynghylch cynllunio HCC ar gyfer y Gynhadledd Flynyddol, gan gynnwys themâu, manteision digwyddiad prynhawn / hwyr a'r dewisiadau ar gyfer newid fformat sesiwn Holi ac Ateb y Bwrdd.

  Roedd angen symud ymlaen gyda'r gynhadledd ac felly cytunwyd y dylai'r Rheolwr Cyfathrebu gydweithio a'r Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu ac adrodd wedyn i'r Bwrdd.

**<u>Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg</u>**

a. *<u>I gael adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Llun 25 Mehefin 2018</u>*

Yn absenoldeb Gareth Davies, enwebwyd Ogwen Williams yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor ac adroddodd i'r Bwrdd.

b. *<u>I gael crynodeb o'r pwyntiau allweddol yn y Datganiadau Ariannol 2017 / 2018 (HCC 827)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a'i gyflwyno gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

c. *<u>I dderbyn a chymeradwyo'r Datganiadau Ariannol ar gyfer 2017 - 2018 (HCC 828)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a'i gyflwyno gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Cadarnhaodd y Bwrdd, a benodwyd fel Cyfarwyddwyr Anweithredol, fod y manylion yn y datganiadau ariannol mewn perthynas â'u datganiadau unigol yn gywir. Trosglwyddwyd yr wybodaeth berthnasol i'r Archwilwyr.

Cafodd y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2017 / 2018 eu cymeradwyo gan y Bwrdd.

Roedd yr Archwilwyr yn fodlon â'r datganiadau ariannol ar gyfer 2017 / 2018 ac yn barod i roi llechen lân i HCC. Cafodd hyn ei ganmol gan y Bwrdd.

d. *<u>I dderbyn y Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Iau 8 Mawrth 2018 (HCC 829)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

**<u>Y Pwyllgor Gwaith ar Iechyd A Lles Diadelloedd a Buchesi</u>**

*<u>I dderbyn cofnodion y Pwyllgor Gwaith Iechyd a Lles Diadelloedd a Buchesi a gynhaliwyd ddydd Mercher 25 Hydref 2017 2018</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

8. **<u>I gael diweddariad llafar ynghylch cais Menter Strategol HCC ar ran y Diwydiant Cig Coch am gyllid gan y Cynllun Datblygu Gwledig 2014 – 2020</u>**

Nodwyd yn gyfrinachol bod Llywodraeth Cymru ar fin cymeradwyo'r uchod.

Roedd yn debygol y ceid cyhoeddiad ffurfiol gan Ysgrifennydd y Cabinet ar ddydd Llun yn Sioe Frenhinol Cymru.

9. **I gael papur gwybodaeth am Ddynodiadau Daearyddol Gwarchodedig (PGI) Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru (HCC 831)**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen ac wedi'i gyflwyno gan y Swyddog Cig Coch.

Gofynnwyd i'r Bwrdd ystyried a oedd yr amodau gofynnol cyfredol mewn perthynas â'r mannau lladd (h.y. nid oedd y lladd-dai ac unedau torri cig a oedd yn gymwys i'w cymeradwyo dan y cynllun PGI yn gyfyngedig i Gymru) yn dal i fod yn addas i'r pwrpas.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd y Bwrdd nad oedd angen newid ar hyn o bryd ond dylai'r Weithrediaeth gadw llygad ar y mater.

10. **Unrhyw fater arall**

Nid oedd unrhyw fater arall.

11. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dydd Iau 13 Medi 2018

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**